# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2019**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**HAF 2019**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**
**Geid i'r Gwyliau**

**A1.** Beth yw enw'r ŵyl sy'n cael ei chynnal ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd? [1]

Parti Ponty
Sillafu yn gorfod bod yn gywir.
✓ = 1 marc
(Casglu gwybodaeth)

**A2.** Faint ydy pris tocyn penwythnos i Sesiwn Fawr, Dolgellau? [1]

£35/tri deg pum punt
✓ = 1 marc

(Casglu gwybodaeth)

**A3.** Beth sy'n gwneud y Sesiwn Fawr yn ŵyl ryngwladol? Nodwch enghraifft i brofi eich ateb. [2]

- Artistiaid (grwpiau/bandiau/cantorion o wledydd eraill/nifer o wledydd/gwahanol weldydd/tu allan i Gymru [1]
- Yr Alban / Lloegr / Iwerddon / Hwngari [1 marc am unrhyw un o'r rhain]

Mae angen rhoi prif lythyren i enw gwlad. Mae angen sillafu'r wlad yn gywir.
✓ = 1 marc

(Dehongli a chasglu gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Goroesi Gŵyl – Rhestr wirio**

**A4.** Dewiswch pa rai o’r cynghorion isod sy’n cael eu rhoi yn y darn darllen. Mae un ateb cywir wedi’i roi i chi yn barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â’r **pedwar** cyngor cywir arall. [4]

| | |
|---|---|
| Mae papur toiled, *jél* gwrthfacteria a weips gwlyb yn hanfodol rhag i ti gael germau a mynd yn sâl. | ✓ |
| Dewisa babell fach gan ei bod yn ysgafn i’w chludo ac yn hawdd ei phacio. | |
| Nid oes angen cerdyn banc arnat mewn gŵyl. | |
| Gwisga blygiau clustiau i atal sŵn pan fyddi di’n ceisio cysgu. | ✓ |
| Pacia ddillad amrywiol ac addas ar gyfer gwres ac oerfel. | ✓ |
| Dylet adael dy gerdyn adnabod gartref rhag ofn i ti ei golli neu i rywun ei ddwyn. | |
| Cofia wefrwr batri i dy ffôn fel dy fod yn gallu cysylltu â dy ffrindiau bob amser. | ✓ |
| Defnyddia eli haul a gwisga het rhag i ti ddioddef twymyn y gwair. | |
| Bydd tortsh yn dy atal rhag baglu wrth chwilio am y toiledau yn y tywyllwch. | ✓ |

Ticio 5 blwch – tynnu 1 marc
Ticio 6 blwch neu fwy – 0 marc
Mewnbynnu marc
(Dehongli a chasglu gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Tafwyl i'r Teulu Cyfan, i Gymru Gyfan**

**A5.** Mae gwefan Tafwyl yn ceisio denu pobl i'r ŵyl. Sut mae awdur y wefan yn llwyddo i wneud hyn? [8]

Gellir sôn am bwyntiau fel:

| | |
|---|---|
| slogan sy'n ailadrodd yr ansoddair 'cyfan' ac yn cytseinio | Tafwyl i'r Teulu Cyfan i Gymru Gyfan |
| berfau gorchmynnol i berswadio | dewch<br>blaswch<br>rhowch gynnig |
| print trwm i amlygu pethau nodedig am yr ŵyl | 37 o ddigwyddiadau<br>mynediad rhad ac am ddim |
| gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael | celf a chrefft, digwyddiadau celfyddydol, sesiynau garddio, gweithdai printio, rêf i blant, gweithdai celf, sesiynau pêl-droed, rygbi, golff, athletau a hoci |
| isdeitlau i gyfleu'r amrywiaeth i bawb a rhannu'r wybodaeth o dan bennawd perthnasol | Bwyd a Diod<br>Pethau i Blant<br>Dysgwyr |
| trosiad | gwledd o gerddoriaeth |
| ansoddeiriau i wneud y cyfan yn fwy apelgar | enwau mwyaf<br>cynnyrch gorau<br>yurt hudolus<br>gwesteion diddorol |
| cytseinedd | Bragdy'r Beirdd<br>Teithiau Tywys<br>Gorau o Gymru |
| rhestru'r pethau sydd i'w gwneud | cerddoriaeth, llenyddiaeth, teithiau tywys, bwyd a diod |
| rhestru'r artistiaid | Yws Gwynedd, Alys Williams, Bryn Fôn, Geraint Jarman a.y.y.b. |
| ymadroddion i gyfleu maint yr ŵyl a'r amrywiaeth o bethau | mwy o stondinau nag erioed<br>digonedd o fariau<br>llond gwlad o ddigwyddiadau<br>cystadlaethau a llawer mwy<br>amserlen lawn dop |
| enwi'r gwahanol ardaloedd a phebyll | tŷ bwyta Milgi<br>pabell fwyd a diod Popty<br>ardal i blant Bwrlwm<br>Yurt T i bobl yn eu harddegau |
| idiom | rhywbeth at ddant pawb |
| diwyg a'r defnydd o liw | |
| logo'r ŵyl | |
| map safle | |



© WJEC CBAC Cyf.

✓ - nodwedd/techneg
t – tystiolaeth
d - dadansoddi

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

**0 marc**
Os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn

**1-2 marc**
Peth ymdrech i drafod arddull/technegau'r testun yn fras

**3-4 marc**
Ymdrech eithaf da i drafod arddull/technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi

**5 marc**
Trafod arddull/technegau yn dda gan gynnwys rhai enghreifftiau/dyfyniadau a dadansoddi'n dda

**6 marc**
Trafod arddull/technegau yn dda iawn gan gynnwys rhai enghreifftiau/dyfyniadau a dadansoddi'n dda iawn

**7-8 marc**
Trafod ardull/technegau yn ddeallus gan gynnig dyfyniadau/cyfeiriadau yn gyson a dadansoddi'n aeddfed
✓ - nodwedd/techneg
t - tystiolaeth
d - dadansoddi
Mewnbynnu marc


© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Tafwyl 'Gŵyl genedlaethol nid dim ond i Gaerdydd'**

**A6.** Rhowch **ddau** reswm pam mae trefnwyr Tafwyl yn dadlau ei bod hi'n ŵyl i Gymru gyfan? [2]

- Hanner y bandiau yn dod o'r gogledd
- Hanner y stondinau o'r gogledd
- Llawer yn heidio o bob cwr o'r wlad/pob rhan o Gymru
- Pobl yn gallu aros am y noson a gwneud penwythnos ohoni

✓ = 1 marc

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

**A7.** Beth yw cyfraniad busnesau lleol at yr ŵyl?
Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

£40,000
✓ = 1 marc

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

**A8.** Pam nad oes tâl mynediad i Tafwyl? Rhowch ✓ gyferbyn â'r ateb cywir. [1]

| | |
|---|---|
| Mae'r ŵyl yn gwneud digon o elw drwy'r bar, y bwyd a'r stondinau i dalu holl gostau cynnal yr ŵyl. | |
| Nid yw'r trefnwyr yn gallu cytuno faint o arian y dylid ei godi fel tâl mynediad i'r ŵyl. | |
| Mae'r bandiau i gyd wrth eu bodd yn perfformio yno ac felly'n gwneud hynny am ddim. | |
| Gall y trefnwyr dalu costau'r ŵyl drwy grant gan y Llywodraeth, nawdd busnesau lleol a'r incwm a wneir o brynu a gwerthu yn ystod yr ŵyl. | ✓ |

1 marc am roi ✓ yn y blwch cywir:

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

**Darllen 5**
**Diwedd y gân yw'r geiniog – Gŵyl Gopr Amlwch yn dod i ben**

**A9.** Beth yw'r prif reswm pam na fydd Gŵyl Gopr Amlwch yn cael ei chynnal y flwyddyn nesaf? [1]

Diffyg/prinder arian/problemau ariannol/anodd casglu digon o arian
✓ = 1 marc

(Dehongli gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**A10.** Beth yw ystyr yr idiom ‘diwedd y gân yw’r geiniog’? [1]

Arian sy’n rheoli popeth yn y pen draw/rhywbeth yn dod i ben pan nad oes arian.

✓ = 1 marc

(Dehongli ac adnabod geiriau)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 5 a 6**
**Diwedd y gân yw'r geiniog – Gŵyl Gopr Amlwch yn dod i ben**
**Hwyl ar y Gwyliau**

**A11.** A ôl darllen darnau 5 a 6 rhaid i chi **gyfuno a chrynhoi gwybodaeth** o'r ddau ddarn i gyflwyno syniadau a ffeithiau am

- bwysigrwydd gwyliau cerddorol
- rhwystrau sy'n wynebu'r trefnwyr [8]

Gellir sôn am syniadau fel:

| Darn Darllen 5 | Darn Darllen 6 |
|---|---|
| **Pwysigrwydd y gwyliau**<br>1. Help i'r gymuned - pobl yn cydweithio<br>2. Llawer o bobl, tua 150,000 dros y degawd wedi mwynhau a chymdeithasu<br>3. Rhoi cyfle a llwyfan i nifer o fandiau, tua 250 band<br>4. Cyfle i groesawu cefnogwyr a pherfformwyr i dref Amlwch bob haf<br>5. Yr ŵyl wedi darparu adloniant bob haf am 10 mlynedd<br>6. Rhoi Amlwch ar y map<br>7. Denu ymwelwyr o bob cwr o Gymru<br>8. Dathlu diwylliant Cymru<br>9. Hyrwyddo cerddoriaeth unigryw Gymraeg a Chymreig | **Pwysigrwydd y gwyliau**<br>1. Sesiwn Fawr wedi bod yn ffenest siop i gerddoriaeth Gymraeg am 25 mlynedd<br>2. Denu ymwelwyr o bell ac agos i Ddolgellau<br>3. Hwb i'r economi leol<br>4. Pobl yn tyrru i fwynhau cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>5. Gwrando ar artistiaid sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru ar ei orau |
| **Rhwystrau sy'n wynebu'r trefnwyr**<br>1. Gŵyl Gopr Amlwch yn dod i ben ar ôl 10 mlynedd<br>2. Pwysau ariannol yw'r prif reswm<br>3. Hel £34,000 yn anos bob blwyddyn<br>4. Prin o £19,000<br>5. Gofynion iechyd a diogelwch wedi tynhau<br>6. Pwyslais cynyddol ar iechyd a diogelwch yn fwrn oherwydd y costau ychwanegol<br>7. Dim grant felly dim gŵyl | **Rhwystrau sy'n wynebu'r trefnwyr**<br>1. Parhad gwyliau, Ywain Myfyr yn nodi mai 10 mlynedd yw oes gŵyl<br>2. Nifer o wyliau yn dod i ben oherwydd diffyg arian<br>3. Gofynion iechyd a diogelwch yn rhoi costau anferthol<br>4. I ŵyl fawr rhaid cael stiwardiaid cofrestredig, gwasanaethau heddlu, ambiwlans, ffensys diogelwch<br>**5.** Costau heddlu a chwmni stiwardio £15,000 yr un |

p/rh – pwyntiau pwysigrwydd/rhwystrau

d - dehongli



© WJEC CBAC Cyf.

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn |
| **1 marc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru beth sy'n bwysig a'r rhwystrau (1-4) |
| **2 farc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru beth sy'n bwysig a'r rhwystrau (5-8) |
| **3 marc** | Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun wrth restu beth sy'n bwysig a'r rhwystrau (9+) |
| **4 marc** | Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun wrth restru beth sy'n bwysig a'r rhwystrau a dechrau dehongli'r wybodaeth |
| **5 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda a dehongli'r wybodaeth yn gyson |
| **6 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda iawn a dehongli'r wybodaeth yn bwrpasol |
| **7-8 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn aeddfed gan ddehongli'r wybodaeth yn aeddfed a threfnus |

Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.